Polisi Cyfle Cyfartal Cyngor Cymuned Llanystumdwy

1. Mae **Cyngor Cymuned Llanystumdwy** yn ceisio hyrwyddo polisïau sy'n adlewyrchu'r gymuned amrywiol gan roi gwerth ar gyfraniadau unigol pobl beth bynnag yw eu cred, eu rhyw, eu tueddfryd rhywiol, eu hoedran, eu statws priodasol, eu hanabledd, eu hil, eu lliw, eu crefydd neu eu tras ethnig neu genedlaethol.

2. Bydd **Cyngor Cymuned Llanystumdwy** yn gwrthsefyll pob rhagfarn uniongyrchol ac anuniongyrchol yn ei arferion cyflogaeth ac wrth ddarparu ei wasanaethau.

3. Bydd **Cyngor Cymuned Llanystumdwy** yn ceisio sicrhau cynrychiolaeth deg a chytbwys o bob sector o'r gymuned leol ac yn sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn cyfarfod ag anghenion y gymuned leol.

4. Bydd **Cyngor Cymuned Llanystumdwy** yn gweithredu i sicrhau y glynir at y polisi hwn wrth ddewis unrhyw ymgeisydd am unrhyw swydd.

5. Bydd pob cyfundrefn a sefydlir yn sgîl yr ymrwymiadau a nodir uchod yn cael eu monitro fel bo'r angen i sicrhau effeithiolrwydd a gwneir newidiadau lle bo'n addas neu fel bo angen.

Mabwysiadwyd: Gorffennaf 2014.

Bydd y Polisi Cyfle Cyfartal yn cael ei ddiweddaru bob pedair blynedd, neu ynghynt na hynny yn sgîl rheoliadau newydd neu newid mewn deddfwriaeth. Bydd angen mwyafrif o ddeuparth o'r holl Gynghorwyr i newid y Polisi Cyfle Cyfartal.

Llofnodwyd gan: